# Disgrifiad o’r Rôl: Eiriolwr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu

## Trosolwg

Mae Amgueddfa Cymru, Cadw a Chyngor Dinas Casnewydd yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r cynnig treftadaeth a thwristiaeth yng Nghaerllion er budd y gymuned leol ac ymwelwyr. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad newydd hwn yn archwilio cyfleoedd ariannu i gwblhau gweledigaeth newydd ar y cyd a dechrau ei gwireddu. Mae’n awyddus i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu’r gwaith hwn law yn llaw â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol.

Bydd 'Caerllion Rufeinig - Gweithio mewn Partneriaeth | Roman Caerleon - Working in Partnership' yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Llywodraethu. Rydym yn chwilio am ddau berson sy'n byw a/neu'n gweithio yng Nghaerllion i ymuno â'r Bwrdd hwn mewn rôl gynghori i helpu i ddarparu safbwyntiau lleol ar gyfeiriad strategol ei waith.

Enw’r rolau hyn yw Eiriolwyr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu, ac mae disgwyl iddyn nhw bara am flwyddyn gyda'r posibilrwydd o'u hymestyn am ddwy neu dair blynedd yn amodol ar gyllid ac adolygiad blynyddol gan y Bwrdd. Disgwylir i Eiriolwyr Cymunedol Caerllion –Bwrdd Llywodraethu gadw at Gylch Gorchwyl y Bwrdd Llywodraethu (copi ar gael ar gais).

Mae treuliau ar gael i annog ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol sydd â phrofiad defnyddiol a/neu gysylltiadau lleol i ddod yn Eiriolwyr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu (manylion pellach isod). Mae'r sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol wedi'u rhestru isod. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Llywodraethu yn arbennig o awyddus i dderbyn datganiadau o ddiddordeb gan bobl ifanc (18 oed neu hŷn) a'r rhai sy'n gweithio yng Nghaerllion. Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol o waith Bwrdd Llywodraethu (neu debyg).

Bydd pob ymdrech resymol yn cael ei gwneud i sicrhau bod amseroedd cyfarfodydd a digwyddiadau yn cyd-fynd â phryd mae Eiriolwyr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu ar gael ac mae’n debygol o gynnwys nosweithiau a phenwythnosau achlysurol. Bydd gwaith ychwanegol y tu allan i'r cyfarfodydd craidd yn cael ei gytuno ymlaen llaw.

**Nodwch:** ni all rhywun sy'n cael ei benodi'n Eiriolwr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu hefyd fod yn Eiriolwr Cymunedol Caerllion – Grŵp Llywio, na'r ffordd arall.

| **Eiriolwr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu (x2)** | |
|---|---|
| **Lleoliad** | Caerllion |
| **Yn adrodd i:** | Bwrdd Llywodraethu Caerllion Rufeinig- Gweithio mewn Partneriaeth \| Roman Caerleon – Working in Partnership |

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r Rôl** | • Cynghori'r Bwrdd Llywodraethu a bod yn llysgennad dros waith Caerllion Rufeinig- Gweithio mewn Partneriaeth \| Roman Caerleon – Working in Partnership trwy:<br>  o geisio safbwyntiau amrywiol cymuned Caerllion a'u rhannu gyda'r Bwrdd Llywodraethu<br>  o cyfeirio aelodau'r gymuned, y Grŵp Llywio a'r Bwrdd Llywodraethu at wybodaeth neu gysylltiadau allweddol, a rhannu gwybodaeth<br>  o cydweithio er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.<br>• Paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Llywodraethu a mynd iddynt bob rhyw 6 mis, naill ai wyneb yn wyneb yng Nghaerllion (neu Gasnewydd neu Gaerdydd o bryd i'w gilydd), neu ar-lein, ac yna adolygu a rhoi sylwadau ar gofnodion/camau gweithredu drafft<br>• Cyfrannu at waith y Bwrdd Llywodraethu rhwng cyfarfodydd drwy gytundeb ymlaen llaw, e.e. adolygu dogfennau, ymateb i negeseuon e-bost, mynd i gyfarfodydd ychwanegol nawr ac yn y man.<br>• Helpu i gynllunio a chyflawni gwaith ymgysylltu â'r gymuned a digwyddiadau eraill drwy gytundeb |
| **Sgiliau, Profiad a Phriodoleddau** | • 18 oed neu hŷn<br>• Byw a/neu'n gweithio yng Nghaerllion gyda phrofiad defnyddiol a/neu gysylltiadau lleol<br>• Does dim angen cymwysterau ffurfiol na phrofiad blaenorol fel aelod o Fwrdd Llywodraethu (neu debyg) – bydd hyfforddiant ar gael os oes angen<br>• Diddordeb mewn treftadaeth a/neu dwristiaeth fel sbardun ar gyfer newid cadarnhaol yng Nghaerllion ar lefel fwy strategol<br>• Parodrwydd i estyn allan a helpu i gynrychioli ystod amrywiol o safbwyntiau lleol mewn rôl gynghori<br>• Gallu mynd i gyfarfodydd a digwyddiadau yn bersonol yng Nghaerllion neu ar-lein (yn amodol ar eu hamser)<br>• Gallu cadw cyfrinachedd pan fo angen |
| **Treuliau** | Gall Eiriolwyr Cymunedol Caerllion – Bwrdd Llywodraethu dderbyn:<br>• £150 y dydd i fynd i gyfarfod Bwrdd Llywodraethu (gan gynnwys paratoi a theithio, adolygu cofnodion/camau gweithredu drafft, a'r holl dreuliau), a<br>• Naill ai hanner diwrnod (£75) neu ddiwrnod llawn (£150), gan gynnwys yr holl dreuliau, am unrhyw waith ychwanegol y cytunwyd arno ymlaen llaw |
| **Hyd y rôl yn fras** | Blwyddyn gyda'r posibilrwydd o'i hymestyn am 2-3 blynedd yn amodol ar gyllid ac adolygiad blynyddol gan y Bwrdd Llywodraethu |

| **Rôl wirfoddol yw hon, sy'n rhwymo mewn anrhydedd yn unig ac nid yn gyfreithiol** | |
|---|---|
| **Prif gyswllt** | Rebecca Harfield<br>Ysgrifenyddiaeth Caerllion Rufeinig - Gweithio mewn Partneriaeth \| Roman Caerleon - Working in Partnership<br>rebecca.harfield@llyw.cymru<br>07977 692511 |